



**Cyfarfod Bwrdd CHC
ddydd Iau 8 Tachwedd
yn swyddfa CHC, Caerdydd**

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwrdd CHC ddydd Iau 8 Tachwedd yn swyddfa CHC yng Nghaerdydd. Roedd cworwm yn y cyfarfod a bu 6 aelod bwrdd yn bresennol yn ogystal ag aelodau o Uwch Grŵp Rheoli CHC. Roedd y rhai oedd yn bresennol yn cynnwys: Debbie Green (Tai Coastal), Paul Roberts (Newydd), Chris O'Meara (Cadwyn), Steve Higginson (Tai Sir Fynwy), Matt Brown (WCVA) ac Andrew Bowden (Cartrefi Conwy). Roedd 4 sylwedydd hefyd yn y cyfarfod, Andrew Martyn-Johns (Grŵp Cartrefi Alliance.), Andrew Vye (Pobl), Kath Palmer (Hafod) a Jonathan Huish (Trivallis).

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Scott Sanders (Linc Cymru), a Paula Kennedy (Cartrefi Melin).

Mae'r dilynol yn grynodedb o'r eitemau a drafodwyd a phenderfyniadau allweddol a gymerwyd yn y cyfarfod.

Cyfrifon Rheolaeth Ch2 2018-19: Ar ddiwedd chwarter 2, adroddwyd diffyg o £8k ar bob gweithgaredd ond mae'r sefyllfa rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yn parhau'n warged o £12k o gymharu â'r £21k yn y gyllideb. **Canlyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd gyfrifon Rheolaeth Ch2.**

Ffioedd Aelodaeth: Yn dilyn adborth gan y Grwpiau Cyflenwi Strategol Prif Swyddogion Gweithredol a Chyllid ac yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Corfforaethol terfynol, cymeradwyodd y Bwrdd gynnydd mewn ffioedd aelodaeth ar gyfer 19/20 gyda chynnydd dilynol ym mlynnyddoedd 20/21 a 21/22 heb fod yn fwy na CPI. **Canlyniad: Hysbysir aelodau am hyn fis nesaf.**

Proses Cyfethol: Bydd CHC yn hysbysebu am aelod cyfetholedig i lenwi'r lle olaf ar y Bwrdd ac yn anelu i benodi rhywun dan lefel Prif Weithredydd/Cyfarwyddydd o tu mewn i'r sector i ddod â phrofiadau a safbwyntiau newydd i'r Bwrdd. Nid yw profiad blaenorol fel aelod Bwrdd yn hanfodol ar gyfer y swydd a rhoddir cefnogaeth i'r ymgeisydd llwyddiannus i'w helpu yn y swydd. Bydd Steve Higginson, Andrew Vye a Phillipa Knowles yn ymwneud â'r broses benodi. Y dyddiad cau ar gyfer cynigion yw 30 Tachwedd a chynhelir cyfweiliadau ar 13 Rhagfyr. **Canlyniad: Penodi aelod cyfetholedig erbyn Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd y Bwrdd ar 10 Ionawr.**

Aelodaeth Housing Europe: Bu trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng CHC a Housing Europe i edrych ar ffyrdd y gall CHC a'n haelodau wneud gwell defnydd o'n haelodaeth yn cynnwys ymweliadau astudio a gwasanaethau cefnogaeth pwrpasol. Gallai hyn hefyd fwydo i llyn rhannu arloesedd ac arfer gorau y Cynllun Corfforaethol newydd (2019-22). **Canlyniad: Cytunodd y Bwrdd i ddileu'r rhybudd i adael ac ystyried eto mewn 12 mis.**

Effeithlonrwydd Bwrdd: Manteisiodd y Bwrdd ar y cyfle i adolygu eu heffeithlonrwydd dros y flwyddyn gyntaf yn dilyn arolwg a gafodd ei lenwi gan bob aelod. Teimlai'r Bwrdd eu bod yn effeithlon mewn nifer o feysydd a bod nifer sylweddol o uchafbwyntiau i edrych yn ôl arnynt. Defnyddir adborth o'r drafodaeth yma i i gynllunio diwrnod cwrdd i ffwrdd y Bwrdd ym mis Ionawr 2019.



Grŵp Cyflenwi Strategol Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion: Fel rhan o'r cynnig newydd i aelodau bwrdd, sefydlwyd Grŵp Cyflenwi Strategol Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion i alluogi aelodau bwrdd i fwydo'n well i mewn i waith CHC. Bydd y cyfarfod cyntaf ar 3 Rhagfyr yn galluogi aelodau i benderfynu ar gyfeiriad y grŵp ar gyfer y dyfodol a dynodi partneriaid allweddol y dymunant weithio gyda nhw yn y dyfodol.

Cynnig Hyfforddiant Llywodraethiant: Agwedd arall o'r cynnig newydd i aelodau bwrdd yw cyfres o gyrsiau a ddatblygwyd i helpu aelodau presennol a darpar aelodau Bwrdd i ddeall eu cyfrifoldebau llywodraethiant. Caiff y rhain eu rhedeg fel cynllun peilot yn Ionawr a Chwefror 2019, a lansir y cynnig terfynol olaf ym mis Mawrth.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 16 Tachwedd yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yng Nghaerdydd (Holland House).